# Adroddiad Rhieni ar Alluoedd Plant – Diwygiedig

# (Holiadur "PARCA-R" )

**Caniatadau:**

Addaswyd holiadur PARCA i'w ddefnyddio gyda babanod a anwyd cyn amser (Johnson et al., Dev Med Child Neurol 2004, 46; 389-397) gyda chaniatâd Saudino, Dale, Oliver, Petrill, Richardson, Rutter, Simonoff, Stevenson & Plomin ( 1998). Defnyddir y mesurau iaith o fewn yr holiadur hwn gyda chaniatâd Cadeirydd Bwrdd Cynghori CDI MacArthur-Bates,: Larry Fenson (2016).

The PARCA questionnaire was adapted for use with infants born preterm (Johnson et al., Dev Med Child Neurol 2004, 46;389-397) with permission from Saudino, Dale, Oliver, Petrill, Richardson, Rutter, Simonoff, Stevenson & Plomin (1998). The language measures included in this questionnaire are used with permission from the MacArthur-Bates CDI Advisory Board, Chair: Larry Fenson (2016).

**Am ragor o wybodaeth:** Ewch i wefan PARCA-R sef www.parca-r.info

# Chwarae eich plentyn

Fel rhiant, bydd gennych syniad da o'r hyn y gall ac na all eich plentyn ei wneud. Ceir rhestr o weithgareddau gwahanol isod. Nodwch a yw eich plentyn yn gallu gwneud y gweithgaredd ai peidio. Hynny ydi, os ydych chi wedi gweld eich plentyn yn gwneud y gweithgaredd (neu rywbeth tebyg) yna ticiwch y blwch o dan "YDI". Os ydych chi'n gwybod na fyddai'ch plentyn yn gallu ei wneud, yna ticiwch y blwch o dan "NAC YDI". Os nad ydych yn siŵr a all eich plentyn ei wneud neu beidio, yna ticiwch y blwch "DDIM YN GWYBOD". Atebwch bob cwestiwn.

Cofiwch fod y cwestiynau hyn ar gyfer plant rhwng 18 mis a 4 oed. Gall eich plentyn wneud rhai gweithgareddau'n hawdd a gall eraill fod yn anodd iddyn nhw. Ni fydd y rhan fwyaf o blant sydd yr un oed â'ch plentyn chi yn gallu gwneud rhai o'r gweithgareddau.

| | | YDI | NACYDI | DDIM YN GWYBOD |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Ydi'ch plentyn yn dynwared pethau rydych chi'n eu gwneud fel rhoi mwythau (cwtsh) i tedi? (Os nad ydych chi'n siŵr rhowch gynnig arni. Rhowch fwythau i tedi ac yna ei roi i'ch plentyn. Dywedwch: Rho di fwythau i tedi rŵan) | ☐ | ☐ | ☐ |
| 2 | Pan fyddwch chi'n cuddio tegan yng ngolwg llawn eich plentyn, ydi o / hi yn edrych amdano ac yn dod o hyd iddo? (Rhowch gynnig ar hyn trwy orchuddio tegan bach gyda lliain neu gwpan a gweld a yw ef / hi'n dadorchuddio'r tegan) | ☐ | ☐ | ☐ |
| 3 | A all eich plentyn roi darn syml, fel sgwâr neu anifail, yn y lle cywir mewn bwrdd jig-so? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 4 | Mae gan rai teganau sawl twll neu agoriad gyda gwahanol siapiau, fel cylch, triongl a seren. Fyddai eich plentyn yn gallu rhoi'r siapiau yn yr agoriadau cywir? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 5 | Ydi eich plentyn yn gallu pentyrru dau floc bach neu degan ar ben ei gilydd? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 6 | A all eich plentyn roi pos neu rywbeth tebyg at ei gilydd lle mae'r darnau'n ffitio gyda'i gilydd ar ei ben ei hun / ar ei phen ei hun? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 7 | Os felly, a all ef / hi wneud hyn ar gyfer pos gyda deg darn neu fwy? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 8 | Ydi eich plentyn yn gallu marcio darn o bapur gan ddefnyddio blaen creon, pensil, neu sialc? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 9 | Ydi eich plentyn yn gallu tynnu llinell sydd fwy neu lai'n syth ar bapur? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 10 | Ydi eich plentyn yn troi, neu'n ceisio troi, tudalennau llyfr un ar y tro? | ☐ | ☐ | ☐ |

| | | YDI | NACYDI | DDIM YN GWYBOD |
|---|---|---|---|---|
| 11 | Ydi eich plentyn weithiau’n smalio fod un gwrthrych, fel bloc, yn wrthrych arall, fel car neu ffôn? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 12 | A all eich plentyn bentyrru tri bloc bach neu degan ar ben ei gilydd ar ei ben ei hun / ei phen ei hun? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 13 | A yw eich plentyn yn smalio gwneud pethau weithiau? Er enghraifft, marchogaeth ceffyl neu wneud paned? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 14 | Ydi eich plentyn yn gallu gwthio car ar hyd y llawr gyda'r olwynion ar y llawr? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 15 | Ydi eich plentyn yn cymryd diddordeb wrth edrych ar luniau mewn llyfr? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 16 | Ydi eich plentyn yn pwyntio at luniau mewn llyfr? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 17 | Ydi eich plentyn yn ceisio dynwared pethau rydych chi'n eu gwneud, fel troi llwy mewn cwpan? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 18 | A all eich plentyn bentyrru saith bloc neu degan bach ar ben ei gilydd ar ei ben ei hun / ei phen ei hun? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 19 | Ydi eich plentyn yn pwyntio neu'n dangos ble mae pobl neu wrthrychau pan ofynnwch: “Ble mae'r golau?" “Ble mae Dad?” neu “Ble mae Tedi?” | ☐ | ☐ | ☐ |
| 20 | A yw eich plentyn weithiau’n smalio fod dwy ddol yn chwarae gyda'i gilydd, neu'n siarad â'i gilydd, neu un yn bwydo'r llall? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 21 | A yw eich plentyn weithiau’n chwarae gemau dychmygol gyda phlentyn arall, gan esgus bod yn rhywun arall, fel mam, dad, plismon neu nyrs? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 22 | A yw eich plentyn weithiau’n chwarae unrhyw gêm gyda phlentyn arall sy'n golygu cymryd tro? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 23 | A yw eich plentyn weithiau’n dynwared gweithred a welodd, yn fuan (o fewn ychydig funudau) ar ôl iddo / iddi ei gweld? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 24 | A all eich plentyn nôl rhywbeth, fel tegan, o ystafell arall ganddo ar ei ben ei hun / ar ei phen ei hun pan ofynnwch? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 25 | Ydi eich plentyn yn gwybod lle mae rhai pethau'n cael eu cadw, fel teganau'n cael eu cadw yn y bocs teganau? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 26 | A yw eich plentyn weithiau’n cadw neu'n rhoi bisged (neu fyrbryd) o’r neilltu ar gyfer yn nes ymlaen, ar ei ben ei hun / ar ei phen ei hun? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 27 | Ydych chi erioed wedi gweld eich plentyn yn dod â thri neu fwy o deganau at ei gilydd cyn dechrau chwarae gyda nhw? | ☐ | ☐ | ☐ |

| | | YDI | NACYDI | DDIM YN GWYBOD |
|---|---|---|---|---|
| 28 | Ydych chi erioed wedi gweld eich plentyn yn didoli pethau (blociau, teganau eraill) yn grwpiau neu bentyrrau sy'n mynd gyda'i gilydd ar ei ben ei hun / ar ei phen ei hun? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 29 | Os yw'ch plentyn eisiau rhywbeth y tu hwnt i'w gyrraedd, a yw ef / hi'n mynd i i nôl cadair neu focs i sefyll arno? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 30 | Pan fydd eich plentyn yn defnyddio neu'n chwarae gyda ffôn, a yw ef / hi yn siarad i mewn i'r geg ac nid y glust? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 31 | Pan fydd eich plentyn yn yfed o gwpan, a yw ef / hi'n ofalus wrth ei roi i lawr, gan geisio peidio â'i dywallt? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 32 | A yw eich plentyn yn ceisio troi handlen drws, caeadau sy’n troi, neu gaeadau sgriwio ar jariau i’w hagor a’u cau? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 33 | A yw eich plentyn yn adnabod ei hun wrth edrych yn y drych? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 34 | A yw eich plentyn yn defnyddio bys yr uwd (ei fys cyntaf) i bwyntio i ddangos diddordeb mewn rhywbeth? | ☐ | ☐ | ☐ |

Mae plant yn deall llawer mwy o eiriau nag y gallant ei ddweud. Dim ond yn y geiriau y mae eich plentyn YN EI DDWEUD y mae gennym ddiddordeb ynddyn nhw yn y fan hon. Ticiwch yr holl eiriau rydych chi wedi clywed eich plentyn yn eu dweud. Os yw'ch plentyn yn defnyddio ynganiad gwahanol o air - e.e., “ely” ar gyfer gwely, neu “iod” ar gyfer diod - ticiwch ef beth bynnag. Cadwch mewn cof mai dim ond sampl o eiriau sydd yma; efallai y bydd eich plentyn yn gwybod llawer o eiriau eraill nad ydynt ar y rhestr hon.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ☐ Mê mê | ☐ Bisged/Cracer | ☐ Gwely | ☐ Cario | ☐ Olaf |
| ☐ Miaw | ☐ Jiws/Diod | ☐ Llofft | ☐ Rhedeg ar ôl | ☐ Bach bach |
| ☐ Aw | ☐ Cig | ☐ Soffa | ☐ Tywallt | ☐ Gwlyb |
| ☐ Uh-oh/o diar | ☐ Llefrith / Llaeth | ☐ Popty | ☐ Gorffen | ☐ Ar ôl |
| ☐ Bow-wow | ☐ Pys | ☐ Grisiau | ☐ Ffitio | ☐ Dydd |
| ☐ Arth | ☐ Het | ☐ Baner | ☐ Mwythau / | ☐ Heno |
| ☐ Aderyn | ☐ Mwclis | ☐ Glaw | ☐ Gwrando | ☐ Ni biau |
| ☐ Cath | ☐ Esgid | ☐ Seren | ☐ Hoffi | ☐ Nhw |
| ☐ Ci | ☐ Sanau | ☐ Siglen / swing | ☐ Torri / Rhwygo | ☐ Hwn |
| ☐ Hwyaden | ☐ Gên | ☐ Ysgol | ☐ Rhwygo/ torri | ☐ Ni |
| ☐ Ceffyl | ☐ Clust | ☐ Awyr | ☐ Ysgwyd | ☐ Lle |
| ☐ Awyren | ☐ Llaw | ☐ Sŵ | ☐ Blasu | ☐ Wrth ochr |
| ☐ Cwch | ☐ Coes | ☐ Ffrind | ☐ Tyner / gofalus | ☐ Lawr |
| ☐ Car | ☐ Clustog | ☐ Mam / mami | ☐ Meddwl | ☐ O dan |
| ☐ Pêl | ☐ Crib | ☐ Person | ☐ Dymuniad | ☐ I gyd |
| ☐ Llyfr | ☐ Lamp | ☐ Ta ta / Hwyl fawr | ☐ Wedi gorffen | ☐ Llawer/lot |
| ☐ Gêm | ☐ Plât | ☐ Haia / helo | ☐ Oer | ☐ Yn gallu |
| ☐ Brechdan | ☐ Sbwriel | ☐ Na | ☐ Cyflym | ☐ Angen |
| ☐ Pysgodyn | ☐ ‘Tray’ | ☐ Siopa | ☐ Hapus | ☐ Fydda I/Byddwn I |
| ☐ Saws | ☐ Towel / Llian | ☐ Diolch | ☐ Poeth | ☐ Os |

# Sut mae eich plentyn yn defnyddio geiriau

Hoffem wybod sut mae'ch plentyn yn defnyddio'r geiriau y gall ef / hi eu dweud. Ticiwch un blwch ar gyfer pob cwestiwn isod i ddweud wrthym a yw eich plentyn yn defnyddio geiriau fel hyn yn aml, weithiau, neu ddim eto.

Cofiwch fod y cwestiynau hyn ar gyfer plant hyd at 4 oed. Bydd llawer o blant sydd yr oed â'ch plentyn chi ddim yn gallu dweud rhai o'r geiriau neu'r brawddegau isod.

| | | YN AML | WEITHIAU | DIM ETO |
|---|---|---|---|---|
| **1** | Ydi eich plentyn weithiau'n siarad am ddigwyddiadau yn y gorffennol neu bobl nad ydyn nhw'n bresennol? Er enghraifft, gallai plentyn a welodd garnifal yr wythnos diwethaf ddweud yn ddiweddarach 'carnifal', 'clown', neu 'band'. | ☐ | ☐ | ☐ |
| **2** | Fydd eich plentyn weithiau'n siarad am rhywbeth sydd am ddigwydd yn y dyfodol? E.e. yn dweud 'chw-chw' neu 'bws' cyn i chi adael y tŷ am dro, neu ddweud 'siglen' pan fyddwch yn mynd i'r parc? | ☐ | ☐ | ☐ |
| **3** | Ydi eich plentyn weithiau'n siarad am wrthrychau nad ydyn nhw'n bresennol? Er enghraifft, gofyn am degan ar goll nad yw yn yr ystafell, neu ofyn am rywun nad yw'n bresennol? | ☐ | ☐ | ☐ |
| **4** | Ydi eich plentyn yn deall os ydych chi'n gofyn am rywbeth nad yw yn yr ystafell? Er enghraifft, a fyddai ef / hi yn mynd i'r ystafell wely i nôl tedi pan ddywedwch 'Lle mae tedi?' | ☐ | ☐ | ☐ |
| **5** | Ydi eich plentyn yn gwybod pwy sydd piau pethau? Er enghraifft, gallai'r plentyn bwyntio at esgid mam a dweud 'mam'. | ☐ | ☐ | ☐ |
| **6** | Ydi eich plentyn wedi dechrau rhoi geiriau at ei gilydd eto, fel 'Dad mynd' neu 'ci cnoi? | ☐ | ☐ | ☐ |

**Os ateboch "Weithiau" neu "Yn aml" i gwestiwn 6 uchod, atebwch yr holl gwestiynau ar y dudalen nesaf.**

Ar gyfer POB PAR o frawddegau isod - A a B - ticiwch yr un sy'n swnio'n FWYAF fel y ffordd y mae'ch plentyn yn siarad ar hyn o bryd, hyd yn oed os nad yw’n dweud yr UNION frawddeg honno. Os yw eich plentyn yn dweud brawddegau hyd yn oed yn fwy cymhleth na'r ddwy enghraifft a roddir, ticiwch B.

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **7** | (Sôn am rywbeth Sy’n digwydd ar hyn o bryd) | | **8** | (Sôn am rywbeth ddigwyddodd yn barod) | | **9** | | |
| A | ☐ | Fi gwneud tŵr | A | ☐ | Dad codi fi | A | ☐ | Hwnna tryc fi |
| B | ☐ | Fi yn gwneud tŵr | B | ☐ | Dad wedi codi fi | B | ☐ | Hwnna ydi nhryc i |
| **10** | | | **11** | | | **12** | | |
| A | ☐ | Babi crio | A | ☐ | Ci fanna | A | ☐ | Coffi poeth |
| B | ☐ | Babi yn crio | B | ☐ | Mae ci fanna | B | ☐ | Coffi yna poeth |
| **13** | | | **14** | | | **15** | | |
| A | ☐ | Fi dim gneud hwnna | A | ☐ | Fi hoffi darllen stori | A | ☐ | Bisged mam |
| B | ☐ | Fi methu gneud hwnna | B | ☐ | Fi’n hoffi darllen stori | B | ☐ | Bisged i mam |
| **16** | | | **17** | | | **18** | | |
| A | ☐ | Paid darllen llyfr | A | ☐ | Babi isio bwyta | A | ☐ | Sbïa/Edrych arnai |
| B | ☐ | Ddim isio ti ddarllen llyfr yna | B | ☐ | Mae babi isio bwyta | B | ☐ | Sbïa/Edrych arnai’n dawnsio |

Diolch yn fawr am eich amser